# Bwrdd Pensiwn Dyfed - Cynrychiolydd Aelod

**Fel yr Awdurdod Gweinyddu o'r Gronfa Bensiwn Dyfed, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn chwilio am Gynrychiolydd Aelod newydd i ddisodli cynrychiolydd presennol ar gyfer y Bwrdd Pensiwn Dyfed.**

Yn unol â Rheoliadau Llywodraethu'r CPLIL 2015, cyflwynwyd Bwrdd Pensiwn Lleol yn Ebrill 2015 i sicrhau bod y Cynllun yn parhau i gael ei reoli a'i gynrychioli'n dda ar lefel leol. Bydd y Bwrdd hwn yn gyfrifol wrth gynorthwyo'r awdurdod gweinyddol a bydd yn perfformio rôl oruchwylio, i:

- Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n gysylltiedig â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun ac unrhyw gynllun cysylltiedig, ac unrhyw ofynion a osodwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â'r Cynllun, ac
- Sicrhau bod y Cynllun yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon.

Mae'r Bwrdd Pensiwn yn cynnwys:

- 3 Chynrychiolydd Cyflogwyr, ac
- 3 Chynrychiolydd Aelodau o'r Cynllun, ac
- 1 Aelod Annibynnol / Cadeirydd

Ceir gwybodaeth fanylach yn y dogfennau Manyleb Rôl a Chylch Gorchwyl yn Bwrdd Pensiwn | Cronfa Bensiwn Dyfed.

**Os oes gennych ddiddordeb mewn eistedd ar y Bwrdd Pensiynau Lleol fel Cynrychiolydd Aelod mae'n rhaid i chi fod yn aelod gweithredol, gohiriedig neu bensiynwr. I wneud cais, cyflwynwch atodiad e-bost i bwrddpensiwn@sirgar.gov.uk yn esbonio mewn dim mwy na 500 o eiriau y rheswm dros fod eisiau eu hystyried ar gyfer y swydd hon a sut rydych yn bodloni'r fanyleb rôl. Gallwch gynnwys eich enw llawn, eich rhif ffôn ac enw eich cyflogwr, neu gyflogwr blaenorol os ydych yn aelod gohiriedig neu bensiynwr.**

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 14.00 ar 28 Chwefror 2022. Bydd pob cais yn cael eu gwerthuso yn erbyn y fanyleb rôl ac yna tynnir rhestr fer.